CYFARFOD EITHRIADOL PWYLLGOR CYFLAWNI RHAGLENNI – CYHOEDDUS

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

11:00 -12:00 | 09 Medi 2025 | MS Teams

Yn Bresennol (Aelodau)	**Blaenl ythren nau**	**Teitl**	**Sefydliad**
David Selway	DS	Cadeirydd y Pwyllgor	IGDC
Ruth Glazzard	RG	Is-gadeirydd y Bwrdd	IGDC
Rowan Gardner	RoG	Aelod Annibynnol	IGDC
Marion Jones	MJ	Aelod Annibynnol	IGDC

Yn Bresennol	**Blaenlythrennau**	**Teitl**	**Sefydliad**
Chris Darling	CD	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol | Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Ifan Evans	IE	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	IGDC
Sam Hall	SH	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	IGDC
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Michelle Sell	MS	Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu	IGDC
Olivia Shorrocks	OS	Pennaeth Perfformiad, Uwchraddio ac Ymyrraeth	LIC
Belinda Mills	BM	Cydlynydd Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)	IGDC

Acronymau			
AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig	WPAS	System Gweinyddu Cleifion Cymru
NDR	Adnodd Data Cenedlaethol	LINC	Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru
SRO	Uwch Swyddog Cyfrifol	BAU	Busnes fel Arfer

DSPP	Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd	WICIS	System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol	IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
WCCIS	System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru	LIMS	System Rheoli Gwybodaeth Labordy
AB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	CTM	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
LIC	Llywodraeth Cymru	PDC	Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni
DMC	Mamolaeth Ddigidol Cymru	OBC	Achos Busnes Amlinellol
EPS	Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig	RISP	Caffael y System Gwybodeg Radioleg
UAT	Profion Derbynioldeb Defnyddwyr	CDR	Ystorfa Data Gofal
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	LIC	Llywodraeth Cymru
IQPD	Cynllunio a Darparu Ansawdd Integredig	WIVS	Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth Cymru
BIPBA	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	DDaT	Bwrdd Digidol, Data a Thechnoleg
EPMA	Rhagnodi a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig		

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu i'w Gofnodi
RHAN 1 – MATERION RHAGARWEINIOL			
1.1	**Croeso a Chyflwyniadau** Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod eithriadol Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyflwynodd Olivia Shorrocks, Pennaeth Perfformiad, Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth o Lywodraeth Cymru, yn benodol fel Sylwedydd. Nododd y Cadeirydd y bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni yn cael eu cynnal yn amlach oherwydd newid statws uwchgyfeirio Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) o Lefel 1 i Lefel 3. Ffocws y cyfarfod yw goruchwylio cynnydd mewn perthynas â'r cynllun gwella uwchgyfeirio. Darparodd y Cadeirydd hefyd hysbysiadau cadw tŷ ynghylch agweddau technegol ar gofnodi'r cyfarfod a'r disgwyliadau o ran ymddygiad safonol.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	**Ymddiheuriadau am Absenoldeb** • Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol	Nodwyd	Dim i'w nodi

	Gweithrediadau • Simon Jones, Cadeirydd y Bwrdd		
1.3	**Datganiadau o Fuddiant** Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 2 - PRIF AGENDA			
2.1	**Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf** • Cyhoeddus • Preifat - crynodeb **Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni:** **GYMERADWYO** cofnodion y cyfarfod diwethaf.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.2	**Cofnod Gweithredu** Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gamau gweithredu newydd ar y cofnod gweithredu. **Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni:** **NODI'R** Cofnod Gweithredu.	Trafodwyd	Dim i'w nodi
2.3	**Statws Uwchgyfeirio – Diweddariad ar y Cynllun Gwella** Cyflwynodd Chris Darling (CD), Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol | Ysgrifennydd y Bwrdd, y diweddariad a thynnodd sylw at weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys y cyfarfodydd IQPD ar 18 Awst 2025 gyda Llywodraeth Cymru, a adolygodd gyflawni cerrig milltir ar gyfer Gorffennaf 2025, rhagolwg ar gerrig milltir mis Medi ac archwiliadau manwl i'r rhaglenni diagnostig (LIMS a RISP) ac ap GIG Cymru. **Cynllun Gwella Monitro Gwell - Diweddariad Cerrig Milltir Medi 2025** **1. Datblygu a Dylunio Saernïaeth Menter Targed Cenedlaethol Gyfredol a Dyfodol:** Adroddodd IE fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran mapio saernïaeth menter GIG Cymru, gyda thua 1,000 o systemau wedi'u mapio a 500 i 600 yn weddill, gan ddarparu digon o wybodaeth i asesu'r cyflwr presennol. Mae'r contractwr wedi cwblhau drafft cyntaf yr adroddiad cyflwr cyfredol ac mae ar fin cyflwyno'r adroddiad Saernïaeth Darged drafft. Mae hyder cryf y bydd modd cyrraedd y garreg filltir diwedd y mis, a gefnogir gan adolygiad allweddol gan y bwrdd prosiect a drefnwyd ar gyfer 25 Medi 2025. Priodolir y cynnydd cyflym hwn i gydweithio effeithiol ar draws GIG Cymru, ochr yn ochr ag ymgysylltu parhaus â chyfarwyddwyr a sefydliadau digidol i sicrhau cyfranogiad ledled y system yn y gwaith saernïaeth. **2.1 Lansiad Cyhoeddus Ap GIG Cymru:** Rhoddodd CD y wybodaeth ddiweddaraf fod ap GIG Cymru wedi'i	Trafodwyd	**Cam Gweithredu A01 -** Gofynnodd RG na ddylid anwybyddu diweddariadau gyda risgiau heb eu datrys neu heb arweiniad presennol heb graffu priodol a gofynnodd am ddilyniant ar yr eitem hon.

	lansio'n ffurfiol ym mis Mai gan y Gweinidog yn ystod cyfarfod cyntaf Bwrdd Arweinyddiaeth DDaT, ac er nad yw'r ymgyrch gyfathrebu gyhoeddus wedi digwydd eto, mae'r amseru gyda'r Gweinidog; ystyrir bod y garreg filltir wedi'i chwblhau o safbwynt cyflawni. **2.2 Nodweddion Ch1 a Ch2 wedi'u cyflwyno yn unol â'r map ffordd "arian" a gymeradwywyd gan y Gweinidog:** Esboniodd IE fod y "map ffordd arian" ar gyfer Ap GIG Cymru wedi'i gytuno'n gynharach yn y flwyddyn fel cynllun cyflawni lefel ganol, gan gydbwyso nodweddion a chost. Mae cynnydd ar y trywydd iawn, wedi'i gefnogi gan gyllid wedi'i gadarnhau o flaen llaw. Fodd bynnag, mae cyflwyno nodweddion fel apwyntiadau cleifion allanol wedi profi'n gymhleth oherwydd yr angen i ddilysu data clinig a gedwir mewn systemau PAS lleol yn fanwl, gan fod y wybodaeth hon na fwriadwyd erioed i gleifion ei gweld bellach yn cael ei gwneud yn weladwy yn yr ap. Mae hyn wedi creu oedi wrth ymsefydlu ledled Cymru. Mae Bwrdd Arweinyddiaeth DDaT yn adolygu sut i gyflymu'r broses hon ar 10 Medi 2025. Ar hyn o bryd mae hyder wrth ddosbarthu wedi'i raddio'n ambr oherwydd oedi posibl wrth ddosbarthu llythyrau clinigol fel nodwedd alffa erbyn diwedd mis Medi. Er bod y dull gwreiddiol yn adlewyrchu'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer apwyntiadau, mae lefel yr ymdrech sydd ei hangen wedi ysgogi adolygiad o'r dyluniad i symleiddio'r broses o ymsefydlu. Gallai hyn arwain at oedi tymor byr ond byddai'n rhoi mwy o hyder o ran cyflawni'r broses gyflwyno lawn ledled Cymru, sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i weinidogion a defnyddwyr.Nodwyd bod angen mwy o eglurded rhwng "wedi darparu" ac "wedi lleoli" ar ymarferoldeb newydd" **3.2 Manyleb Gofal Cymunedol a strategaeth Fasnachol y cytunwyd arnynt:** Cadarnhaodd SH fod strategaeth ar waith yn cael ei chwblhau gyda mewnbwn gan bartneriaid y bwrdd iechyd a bydd yn cael ei chyflwyno i Fwrdd y Rhaglen Cysylltu Gofal erbyn diwedd yr wythnos. Ochr yn ochr â hynny, mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Llywodraeth Cymru i asesu a allai un ateb gefnogi cynhyrchion digidol iechyd cymunedol a chlwstwr presennol. Os yw'n ymarferol, gallai hyn gynnig mwy o effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd. Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal cyn mynd i'r farchnad i sicrhau bod y gofynion cywir ar waith, er y disgwylir i unrhyw oedi yn yr amserlenni fod yn fach iawn. Cododd SH ddau bwynt ariannu allweddol hefyd. Yn gyntaf, croesawodd SH gyllid eleni ar gyfer dyfeisiau, sy'n hanfodol i gefnogi unrhyw gyflwyniad system fodern. Fodd bynnag, mynegodd SH bryder mai dim ond am flwyddyn y mae'r cyllid. Mae byrddau		

	iechyd yn betrusgar i ymrwymo i raglen aml-flwyddyn fel Cysylltu Gofal heb sicrwydd ariannol hirdymor, ac mae'r mater hwn yn cael ei drafod yn weithredol drwy'r bwrdd rhaglen. **4.2 Cytunwyd ar gynllun ac amserlen mudo data gyda rhanddeiliaid drwy Fwrdd Rhaglen NDR a/neu wedi'u cyfarwyddo gan Lywodraeth Cymru**: Adroddodd IE fod y cynllun a'r amserlen mudo data ar gyfer y rhaglen NDR wedi'u marcio'n ambr. Mae cynnydd wedi'i wneud, ond collwyd amser yn datrys y cytundeb rheolydd ar y cyd, gan ohirio trafodaethau cynllunio ymarferol. Mae byrddau iechyd wedi cyflwyno cynlluniau sy'n cael eu hadolygu i benderfynu a ydynt gyda'i gilydd yn ffurfio cynllun mudo y cytunwyd arno. Mae hyder rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, y bydd y garreg filltir yn cael ei chyflawni erbyn diwedd y mis. **5.4 RISP Yn Fyw mewn un Bwrdd Iechyd ac un Ymddiriedolaeth Erbyn:** Cadarnhaodd CD fod system RISP wedi mynd yn fyw yn llwyddiannus yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys gan gyflawni carreg filltir mis Medi. Pwysleisiodd CD, er gwaethaf y cyflawniad hwn, fod pwysau a ffocws sylweddol o hyd yn ofynnol ar gyfer cyflawniad parhaus y rhaglen. **6.1 Map ffordd mudo (practisiau meddygon teulu o INPS i EMIS) yn cael ei adrodd yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru:** Rhoddodd CD ddiweddariad fod y map ffordd mudo yn mynd rhagddo'n dda, gyda 32 o bractisiau wedi mudo hyd yn hyn a bod y targed o 40 erbyn diwedd mis Medi ar y trywydd iawn. **7.2 Cyflawni yn erbyn cynllun ymgysylltu rhanddeiliaid EPMA i sicrhau gwelliant parhaus, i gynnwys cleifion, darparwyr gofal iechyd a darparwyr technoleg:** Rhoddodd CD ddiweddariad fod cynllun ymgysylltu drafft ar gyfer carreg filltir rhanddeiliaid EPMA ar waith ac yn mynd trwy'r broses gymeradwyo ar hyn o bryd. **7.4 Parhau i gyflwyno'r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig (EPS) i amserlen y rhaglen - 105 o feddygfeydd teulu yn fyw gydag EPS erbyn mis Medi 2025:** Adroddodd CD fod cyflwyno'r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig (EPS) i 105 o feddygfeydd teulu sy'n cynrychioli 28% o feddygon teulu yng Nghymru wedi'i gwblhau ychydig cyn y garreg filltir diwedd mis Medi. Mae ystadegau defnydd o fferyllfeydd cymunedol a chyfrolau presgripsiynau yn dangos bod y defnydd yn gadarnhaol. **8. Gofal Dwys - cynnal asesiad o'r camau nesaf ar gyfer y rhaglen hon, a sut y dylid ei hadnoddu a'i harwain:** Nododd CD fod y garreg filltir gofal dwys yn cynnwys llythyr gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol i gyrff y		

	GIG, gan gynnwys Iechyd Digidol a Gofal Cymru, gan amlinellu rhaglen weithgarwch arfaethedig. Mae cerrig milltir diweddar, fel gweithdai clinigol ac ailosod rhaglen, wedi'u cwblhau. Mae'r rhaglen yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gael ei chyflwyno i fwrdd y rhaglen erbyn diwedd mis Medi. • Adroddodd MS gynnydd cryf ar y rhaglen gofal dwys, gan dynnu sylw at lefelau uchel o ymgysylltu clinigol a thechnegol a strwythurau llywodraethu gwell. Mae grŵp technegol bellach wedi'i sefydlu, ac mae Byrddau Iechyd yn cymryd rhan weithredol yn y broses o lunio'r cynnig. Y nod yw cyflwyno'r cynnig i'r Bwrdd Rhaglen ar 23 Medi 2025 i gytuno arno, a disgwylir i Lywodraeth Cymru ei adolygu ar 25 Medi. 9.3 **Cefnogi datblygu a chyflawni map ffordd datblygu data ar gyfer gwasanaethau canser i fynd i'r afael â'r holl ddiffygion data sy'n rhwystro rheoli a goruchwylio systemau:** Er bod yr adborth mewnol diweddaraf wedi graddio'r garreg filltir yn wyrdd a bod cynnydd yn parhau mewn cydweithrediad â'r Uned Perfformiad a Gwella, fe'i marciwyd yn ambr gan CD oherwydd ei gyfranogiad uniongyrchol cyfyngedig ac absenoldeb yr arweinydd Gweithredol. **Cam Gweithredu A01** Gofynnodd RG na ddylid anwybyddu diweddariadau gyda risgiau heb eu datrys neu heb arweiniad presennol heb graffu priodol a gofynnodd am ddilyniant ar yr eitem hon. **10.1 Adroddiad cryno ar fap ffordd llywodraethu a gweithredu Rhaglenni Mawr, trwy Bwyllgor Cyflawni Rhaglenni IGDC:** Diweddarodd CD fod yr adroddiad yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, gyda'r Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu yn arwain y gwaith, a bod hyder y bydd yn cael ei gyflwyno ar amser. Cysylltodd CD hyn hefyd â cherrig milltir 10.3 a 10.4, sy'n ymwneud â theipoleg rhaglenni a fframweithiau masnachol. Cyflwynwyd rhywfaint o waith cychwynnol yn sesiwn datblygu'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni (PDC) ym mis Mai, a disgwylir diweddariadau pellach. Nododd CD y gallai fod angen iddynt drefnu adolygiad electronig neu sesiwn datblygu yn ddiweddarach yn y mis i sicrhau bod y cerrig milltir hyn yn cael eu craffu'n briodol. **11.4 Olrhain cyflawni cynllun gweithredu adolygu rhanddeiliaid (ar draws y chwe thema a neilltuwyd i IGDC): 40% o gamau gweithredu IGDC wedi'u cwblhau erbyn mis Medi 2025:** Cadarnhaodd CD fod 53% o gynllun cyflawni cerrig milltir penodol i IGDC		

	wedi'i gwblhau, gan eu cadw ychydig o flaen yr amserlen. **11.5 Diweddariad ar gyflawni camau gweithredu system o'r adolygiad rhanddeiliaid;** Rhoddodd CD ddiweddariad fod 45% o'r camau gweithredu system-gyfan ehangach o'r adolygiad rhanddeiliaid wedi'u cwblhau. • Pwysleisiodd CD fod cynnydd parhaus ar y cerrig milltir hyn yn cefnogi hygrededd IGDC ac yn eu rhoi mewn sefyllfa dda ar gyfer dad-ddwysáu posibl yn y dyfodol agos. • 10.3 Cytunwyd ar y diffiniad ar gyfer categorïau "rhaglen fawr" - wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cyflawni Rhaglenni IGDC a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru/partneriaid • 10.4 Fframwaith ar gyfer opsiynau masnachol ar gyfer rhaglenni "digidol mawr" i'w gymeradwyo gan Bwyllgor Cyflawni Rhaglenni IGDC a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru/partneriaid **Teipoleg Rhaglenni a Masnachol:** Rhoddodd MS drosolwg o'r gwahanol deipolegau rhaglenni a chontractau a ddefnyddir gan IGDC. Amlinellodd MS dri phrif fath o raglenni cyflawni: • **Rhaglenni Cyflawni IGDC** (e.e. DSPP, WNCR, EPS): gweithredu dan arweiniad IGDC yn gweithio'n uniongyrchol gyda chyflenwyr; penderfyniad gweithredu wedi'i wneud gan IGDC. • **Rhaglenni Partneriaeth Cenedlaethol** a. **Contract Sengl** (e.e. LIMS, NDR): Rheolir/Cydlynir y gweithrediad gan IGDC gydag un contract Cymru Gyfan, un achos busnes cyfunol, cyllid rhaglen fel arfer yn cael ei ddosbarthu o Lywodraeth Cymru drwy IGDC i bartneriaid cyflawni lleol, atebolrwydd o leol i genedlaethol i Lywodraeth Cymru, gwneir penderfyniadau gweithredu ar y cyd. Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol, gwneud penderfyniadau ar y cyd, Cadeirydd Goruchwylio Rhaglen annibynnol, Byrddau gweithredu lleol. b. **Contractau ar y cyd**(e.e. RISP, WCCIS): Rheolir/Cydlynir y gweithrediad gan IGDC gyda rheoli contract ar y cyd (e.e. contract Cytundeb Gwasanaethau Meistr gyda rheolau trefnu lleol), un achos busnes cyfunol, cyllid rhaglen fel arfer yn cael ei ddosbarthu o Lywodraeth Cymru drwy IGDC i bartneriaid cyflawni lleol, atebolrwydd o leol i genedlaethol i Lywodraeth Cymru,		

	gwneir penderfyniadau gan bartneriaid cyflawni lleol yn y pen draw. Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol – penderfyniadau a bennir yn lleol, Cadeirydd Goruchwylio Rhaglen annibynnol, Byrddau gweithredu lleol. • **Rhaglenni Cymorth Cenedlaethol** (e.e. EPMA, Mamolaeth (newydd), PACs Etifeddiaeth): gweithredu wedi'i gefnogi gan IGDC gyda rheoli contractau lleol, achosion busnes cenedlaethol a lleol ar wahân, cyllid rhaglen yn cael ei ddosbarthu o Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i IGDC ac i bartneriaid cyflawni lleol, atebolrwydd yn uniongyrchol o leol a chenedlaethol i Lywodraeth Cymru, gweithredu gan bartneriaid cyflawni lleol yn unig. Gall gynnwys cyflwyno cynhyrchion, safonau ac integreiddiadau sy'n hanfodol i'r ddarpariaeth leol. E.e. integreiddio ePMA i saernïaeth genedlaethol a rhannu data. Penderfyniadau a bennir yn lleol drwy Fyrddau llywodraethu lleol. **Teipoleg - Mathau o Gontractau:** • Amlinellodd MS y gwahanol fathau o gontractau y mae IGDC yn eu defnyddio ar draws ei raglenni. Esboniodd MS fod rhai rhaglenni'n gweithredu o dan gontract Cymru Gyfan Sengl a reolir gan IGDC ar ran y GIG, gyda gwasanaethau'n cael eu darparu i Fyrddau Iechyd ac ymddiriedolaethau. Ystyrir mai dyma'r model symlaf ar gyfer rheoli datrysiadau cenedlaethol. • Mae model arall, fel yr un a ddefnyddir ar gyfer y RISP (Rhaglen System Gwybodaeth Radioleg), yn cynnwys Cytundeb Gwasanaethau Meistr a gedwir yn ganolog, gyda chontractau unigol yn eiddo i bob sefydliad, sy'n arwain at ddeinameg cyflawni mwy cymhleth. • Soniodd MS hefyd nad yw pob datrysiad yn cael ei gaffael, mae rhai yn cael eu datblygu'n fewnol neu drwy drydydd partïon, fel ap GIG Cymru. Mae'r rhan fwyaf o raglenni cenedlaethol yn defnyddio un o bedwar model contract, pob un â'i fanteision a'i anfanteision ei hun. • Nododd MS fod y gwaith teipoleg contract hwn yn cael ei alinio â'r dull saernïaeth ddigidol ehangach "Unwaith i Gymru", sy'n seiliedig ar fodel tair haen o ddatrysiadau digidol cenedlaethol a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys datrysiadau cyffredin, a rennir ar y brig a rhai mwy amrywiol yn lleol ar y gwaelod, gyda ffocws ar sicrhau rhyngweithrediadau ac aliniad.		

	Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni: • **NODI** statws presennol y Cynllun Gwella Uwchgyfeirio Monitro Uwch er **SICRWYDD** • **NODI** bod Bwrdd IGDC am ystyried ystyriaethau system gyfan mewn perthynas ag uwchgyfeirio. • **TRAFOD** yr ymateb i uwchgyfeirio ac ystyried unrhyw uwchgyfeirio i Fwrdd yr AIA.		
RHAN 6 - MATERION I GLOI			
Unrhyw Faterion Brys Eraill • Ni chodwyd unrhyw fater brys.		Trafodwyd	Dim i'w nodi
Dyddiad y cyfarfod nesaf: • 06 Tachwedd 2025		Nodwyd	Dim i'w nodi